**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**ADOLYGIAD POLISI O’R IAITH GYMRAEG MEWN ADDYSG: TYSTIOLAETH LAFAR UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU**

## 1. Cyflwyniad

Mae UCAC yn croesawu’r ffaith bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal yr adolygiad polisi hwn, ac yn falch o gyflwyno tystiolaeth lafar i ategu’r hyn a ddywedwyd yn ein hymateb ysgrifenedig, yn enwedig o gofio bod amcanion sylfaenol yr Undeb yn cynnwys:

- *hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg ar gyfer pob plentyn a myfyriwr*
- *hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg a buddiannau'r diwylliant Cymreig yn holl ysgolion a cholegau Cymru.*

Mae UCAC yn cytuno’n llwyr â’r nod a fabwysiadwyd mewn cyfarfod llawn o’r Cynulliad Cenedlaethol ar 4 Gorffennaf 2001, sef: *". . . y nod o greu Cymru ddwyieithog fel nod cenedlaethol cyraeddadwy, ac mae’n dymuno gweld strategaeth effeithiol yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod y nod hwn yn cael ei gyflawni*."

## 2. Y Gymraeg yn y Gymuned

Ni all y Gymraeg lwyddo mewn gwactod. Mae’n bwysig, felly, edrych ar iaith mewn addysg ac iaith yn y teulu a’r gymuned gyda’i gilydd. Ni ellir ystyried un heb y llall; ni ellir disgwyl i un ffynnu heb hyrwyddo a chefnogi’r llall.

Rhaid darparu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned. Yn wir, cred UCAC mai’r unig ffordd i sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg yw trwy fabwysiadu polisïau a fydd yn:

- hyrwyddo a chynnal cymunedau Cymru
- sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn y cymunedau hynny.

## 3. Addysg Feithrin / Gofal Addysgol

Credwn yn UCAC bod angen hyrwyddo a marchnata ysgolion ac unedau meithrin cyfrwng-Cymraeg – yn enwedig felly gyda rhieni di-Gymraeg – gan sicrhau bod addysg feithrin cyfrwng-Cymraeg ar gael i bawb o fewn eu cymuned. Mae gan Mudiad Ysgolion Meithrin arbenigedd gwerthfawr iawn yn y maes hwn, ac mae angen adeiladu ar ei lwyddiant. Gorau po gyntaf mae plant yn gweld a chlywed yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Mae'r rhieni di-Gymraeg sy'n dewis addysg feithrin cyfrwng-Cymraeg i'r plant eisoes wedi dangos ymroddiad i'r iaith, a dylid manteisio ar hynny trwy sicrhau bod yna gyfleoedd iddynt hwythau ddysgu'r Gymraeg. Gellir gwneud hyn drwy gynnal gwersi Cymraeg yn yr ysgol, neu mewn canolfan leol. Yn y modd yma, bydd y teulu cyfan yn dysgu'r iaith yr un pryd.

Polisi UCAC yw darparu addysg feithrin i bob plentyn 3 a 4 oed yn rhad ac am ddim yn y gymuned – addysg ran-amser i blant 3 oed a llawn-amser i blant 4 oed. Dylai'r ddarpariaeth hon fod ar gael yn y Gymraeg ym mhob rhan o Gymru, a hynny yn y gymuned. Mae angen sicrhau bod gallu derbyn addysg feithrin Gymraeg yr un mor hwylus â gallu derbyn addysg feithrin Saesneg.

## 4. Addysg 5-16 oed

Cred UCAC bod angen edrych ar y ddarpariaeth addysg gynradd ym mhob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru. Rhaid gwneud yn siwr bod yr Awdurdodau hyn yn cynllunio'n ofalus i sicrhau darpariaeth, datblygiad a chynnydd addysg cyfrwng-Cymraeg ym mhob rhan o'u sir er mwyn diwallu'r galw cynyddol am addysg Gymraeg. Mae angen i'r siroedd gynllunio'n strategol o flaen llaw, nid ymateb i bwysau ac ymgyrchu rhieni dros nifer o flynyddoedd.

Mae UCAC yn gefnogol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol Cymreig, ac yn falch mai ACCAC sydd yn gyfrifol am y Cwricwlwm yng Nghymru

Mae UCAC yn galw am gyflwyno TASau Cymraeg Ail-iaith statudol yng Nghyfnod Allweddol 2 er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion ail-iaith. Dylai TASau Cymraeg Ail-iaith Cyfnod Allweddol 3 gael eu marcio'n allanol er mwyn sicrhau cysondeb a statws cyfartal â phynciau craidd eraill.

Mae UCAC yn galw am wneud Cymraeg Ail-iaith yn bwnc craidd ym mhob Cyfnod Allweddol, gan gynnwys Cyfnod Allweddol 4. Byddai hyn yn arwain at ddyraniad amser cyfartal â phynciau craidd eraill ac yn codi statws y Gymraeg fel ail-iaith. Ar hyn o bryd am nad yw Cymraeg Ail-iaith yn bwnc craidd, ni roddir y statws haeddiannol iddi a chaiff ei thrin fel pwnc israddol.

Yn ogystal, mae angen edrych ar yr amrediad cymwysterau Cymraeg sydd ar gael ar gyfer disgyblion 14-19 oed, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn benodol, mae UCAC yn galw am gyflwyno arholiad TGAU Estynedig Cymraeg. Llwyddiant yr ysgolion Cymraeg sy'n gyfrifol am yr angen i ddatblygu cymhwyster o'r fath oherwydd, bellach, diolch i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac ymroddiad athrawon Cymraeg, mae nifer fawr o ddisgyblion wedi llwyddo i groesi'r bont ieithyddol rhwng iaith gyntaf ac ail iaith. Mae angen, felly, gymhwyster tebyg i Gymraeg Estynedig arnynt. Nid yw'r rhaglen astudio Cymraeg Iaith Gyntaf, na'r rhaglen astudio Cymraeg Ail-iaith, yn briodol i nifer fawr ohonynt. Mae'r disgyblion hyn – nifer ohonynt yn dod o gartrefi hollol di-Gymraeg, ac ond yn clywed y Gymraeg yn y gwersi – wedi llwyddo yn ieithyddol ac ni ddylid eu cosbi trwy eu gorfodi i ddilyn rhaglen astudio sy'n anaddas ar eu cyfer. Yn wir mae UCAC yn cefnogi'r egwyddor o Gontiniwm Cymraeg ble mae disgyblion yn datblygu yn ieithyddol. Mae angen i'r Cynulliad ymchwilio i'r dewisiadau gorau yn y maes; yn sicr nid yw'r *status quo* yn ateb.

Tra bod sefyllfa lle nad oes cymhwyster addas ar gyfer y disgyblion sydd yn llwyddo i groesi'r bont ieithyddol yn parhau, bydd ysgolion Cymru yn wynebu problemau dirfawr.

Dylid addysgu **pob** pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion penodedig Cymraeg.

Dylai ysgolion traddodiadol Cymraeg gynnig ystod eang o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn y dylid ymchwilio i bob dull posib – gan gynnwys rhannu adnoddau a TGCh – er mwyn gallu cyflwyno pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen ymchwilio i fanteision dysgu pwnc neu fodiwl drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion ble addysgir y Gymraeg fel ail iaith. Byddai hyn yn cyfoethogi'r addysgu Gymraeg sydd wedi digwydd yn yr ysgolion cynradd a rhoi gwerth i'r Gymraeg yn yr uwchradd, gan ei gwneud yn berthnasol i'r holl ddisgyblion.

Mynnwn hefyd bod angen sefydlu Canolfannau Iaith ar gyfer hwyr-ddyfodiaid ym mhob sir fel ffordd o estyn cefnogaeth iddynt i ddysgu'r Gymraeg. Mae'r Canolfannau Iaith sydd eisoes yn bodoli mewn nifer o siroedd yn llwyddo i gymhathu hwyr-ddyfodiaid i gyfundrefn addysg Cymru.

Mae'n holl bwysig hefyd bod y Cynulliad yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth Athrawon Bro sydd yn rhoi cefnogaeth ychwanegol ac arbenigol i ysgolion.

## 5. Addysg Ôl-16

Mae UCAC o'r farn bod yn rhaid diogelu unedau chweched dosbarth ysgolion Cymru. Rhaid

cyllido’r rhain yn ddigonol ac, er mwyn sicrhau ystod eang o gyrsiau cyfrwng-Cymraeg, rhaid gwneud y defnydd llawnaf posib o’r dechnoleg fodern, gan gynnwys dysgu o bell a fideo gynadledda.

Heblaw am addysg chweched dosbarth ein hysgolion, prin iawn yw’r cyfleoedd ar gyfer addysg ôl-16 cyfrwng-Cymraeg yng Nghymru. Yn wir, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yr ysgol Gymraeg yw’r unig ddarparwr o addysg ôl-16 cyfrwng-Cymraeg. Mae UCAC yn mynnu y dylid sicrhau cydweithio, o dan oruchwyliaeth ELWa, rhwng y darparwyr cyfrwng-Cymraeg ar lefel genedlaethol, neu ranbarthol, er mwyn darparu a datblygu cyrsiau.

Rhaid sicrhau darpariaeth Gymraeg a Chymreig ym mhob maes addysg ôl-16. Eto, ni ddylid cyfyngu’r Gymraeg i rai pynciau yn unig. Er enghraifft, yn sgîl y galw am sgiliau dwyieithrwydd, mae angen datblygu modiwlau perthnasol yn y Colegau Addysg Bellach a chydnabod sgiliau dwyieithrwydd o fewn yr elfen gyfathrebu Sgiliau Allweddol ôl-16.

Yn ddiweddar, rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu cyrsiau galwedigaethol. Tra bod UCAC yn croesawu’r datblygiadau hyn, mae’n hanfodol bod y cyrsiau newydd yma ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid sicrhau yr hyfforddir athrawon a darlithwyr cyn ehangu unrhyw gyrsiau neu ymateb yn hwyr i’r gofyn y byddwn yn hytrach na pharatoi ar ei gyfer. Rhaid i’r adnoddau dynol fod ar gael o’r cychwyn er mwyn sicrhau bod pobl ifanc Cymru sydd yn awyddus i dderbyn addysg alwedigaethol yn y Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Os ydym am ddatblygu sgiliau galwedigaethol pobl ifanc Cymru er mwyn eu hannog i aros yn eu cymunedau rhaid cael y cyrsiau yn y Gymraeg er mwyn atgyfnerthu’r Gymraeg fel iaith cyfrwng yn ein cymunedau, yn enwedig ein cymunedau gwledig a Chymreig.

## 6. Addysg Uwch

Cred UCAC bod gan y sector addysg uwch yma yng Nghymru gyfrifoldeb i ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r hyn sy’n digwydd yn ein sefydliadau addysg uwch, lle mae prinder cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn effeithio ar y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach. Gan nad yw’r ddarpariaeth Gymraeg ar lefel brifysgol yn ddigonol mae yma golli dilyniant sy’n cael effaith andwyol ar yr iaith. Mae angen ehangu ar yr addysg cyfrwng-Cymraeg yn ein sefydliadau, a golyga hyn fuddsoddiad hirdymor o ran cyllid a threfniadaeth.

Mae UCAC wedi manylu ar hyn wrth gyflwyno tystiolaeth fel rhan o’r Adolygiad Addysg Uwch.

## 7. Dysgu Gydol Oes

O fewn cyd-destun yr adolygiad hwn, hoffai UCAC nodi bod angen sicrhau addysg a hyfforddiant dwyieithog o fewn addysg gymunedol ac addysg i oedolion, er mwyn sicrhau bod sgiliau Cymraeg a dwyieithog yn treiddio i bob agwedd ar fywyd y gymuned.

Rhaid wrth gyllid digonol i ddarparu addysg a hyfforddiant Cymraeg. Mae angen sicrhau bod trefniant mewn lle ynghyd â chyllid digonol i farchnata a hyrwyddo cyrsiau galwedigaethol Cymraeg a dwyieithog o fewn y gymuned, yn ogystal ag o fewn addysg ffurfiol ôl-16, gan ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno sgiliau dwyieithog yn y gweithle.

Rhaid sicrhau ffyniant ein cymunedau Cymraeg. Os bydd y pentrefi a'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn marw, dim ond unigolion neu grwpiau bach o bobl fydd ar ôl yn defnyddio'r iaith. Rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw yn ein cymunedau. Er mwyn cefnogi'r gwaith clodwiw a wneir gan athrawon yn yr ysgolion, rhaid i ddisgyblion weld y Gymraeg fel iaith sy'n cael ei defnyddio y tu allan i'r ysgol. Byddai hyn yn eu hannog hwythau i ddefnyddio'r iaith gyda'u cyfoedion a chymdogion ym mhob agwedd ar eu bywyd beunyddiol.

## 8. Anghenion Addysgol Arbennig

Mae UCAC yn cytuno'n llwyr â'r egwyddorion sylfaenol sydd yn y Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig arfaethedig, er bod yna oblygiadau hyfforddiant enfawr ynghlwm â llwyddiant y Côd hwn. Mae'r hawl i dderbyn addysg anghenion arbennig drwy'r Gymraeg yn holl bwysig. Rhaid i bob corff sy'n helpu disgyblion a'u rhieni sicrhau ei fod yn gallu cyflwyno ei wasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg – a bod y gwasanaethau hynny yn gyfartal o ran ansawdd.

Mae UCAC yn cydnabod bod prinder arbenigwyr yn y maes hwn yn gyffredinol, ond bod y sefyllfa o ran arbenigwyr cyfrwng-Cymraeg yn waeth. Bydd yna oblygiadau cyllido a hyfforddiant, felly, er mwyn sicrhau gwasanaethau safonol yn y ddwy iaith. Gellir, wrth gwrs, ystyried rhannu adnoddau ac arbenigedd ar draws y siroedd, e.e. gallai therapyddion lleferydd cyfrwng-Cymraeg weithio'n rhyng-sirol.

## 9. Recriwtio, Hyfforddi a Datblygu Proffesiynol

Mae'n ffaith bod yna brinder athrawon, yn enwedig mewn rhai meysydd – ac mae'r broblem hon yn ddifrifol gyda rhai pynciau cyfrwng-Cymraeg. Mae adroddiad diweddar Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi tanlinellu'r argyfwng posib allai wynebu'r byd addysg yng Nghymru. Rhaid mynd i'r afael a'r broblem hon yn syth, cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Nid yw'r broblem cyn

waethed â Lloegr eto, ond mae'n gwaethygu.

Rhaid i'r Cynulliad rhoi gwella llwyth gwaith athrawon yn flaenoriaeth os yw am sicrhau bod addysgu fel gyrfa yn broffesiwn werth ei ddilyn.

Dylid defnyddio Datblygiad Proffesiynol fel cyfle i annog a hyfforddi athrawon a darlithwyr sydd yn medru'r iaith Gymraeg ond nad ydynt yn ddigon hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i drosglwyddo cyfrwng addysgu. Byddai hyn yn lleihau, rywfaint, ar y prinder athrawon a darlithwyr cyfrwng-Cymraeg.

Mae angen hyrwyddo dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fel gyrfa broffesiynol. Rhaid rhoi cefnogaeth i'r Sefydliadau Hyfforddi Athrawon i ddenu myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg, gan gynnwys y Gymraeg fel pwnc.

## 10. Adnoddau / Deunyddiau Addysgol

Mae angen sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gan ACCAC rôl allweddol i sicrhau cyflenwad adnoddau cyfrwng-Cymraeg ar gyfer holl ystod y Cwricwlwm Cenedlaethol. Croesawn yr adnoddau a gomisiynir gan ACCAC yn fawr – yn enwedig y rheiny sydd yn adnoddau gwreiddiol Cymraeg a Chymreig.

Dylid ariannu costau cyfieithu manylebion ac arholiadau cyfrwng-Cymraeg yn llawn, gan roi'r cyfrifoldeb hwn i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. Rhaid i'r deunyddiau yma fod ar gael yr un pryd a'r deunyddiau cyfrwng-Saesneg. Mynnwn gydraddoldeb i'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar y byd addysg yng Nghymru.

Galwn ar y Cynulliad i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i bob ysgol yng Nghymru sy'n gweithredu drwy gyfrwng y ddwy iaith.

Yn fras, dylai beth bynnag sydd ar gael ar gyfer addysg cyfrwng-Saesneg fod ar gael ar gyfer addysg cyfrwng-Cymraeg – rhaid wrth gydraddoldeb llwyr yma o ran safon ac amseru.

## 11. Crynodeb

Rhaid cael strategaeth glir a blaen-gynllunio manwl i ddiwallu'r angen am addysg cyfrwng-Cymraeg. Yn y gorffennol, datblygwyd gormod o'r ddarpariaeth ar hap mewn ymateb i bwysau aruthrol oddi wrth rhieni. Mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth ddarniog heb unrhyw strwythur

pendant. Dylai’r Awdurdodau Addysg Lleol gynllunio dros y deng mlynedd nesaf, gan weithio ar y cyd ble byddai hynny’n fanteisiol – yn enwedig ar gyfer addysg uwchradd 11-19 oed.

Mae’r iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg neu beidio, ac mae’n holl bwysig bod y Cynulliad yn ymrwymo hun i lunio a mabwysiadu cynlluniau a fydd yn hyrwyddo’r Gymraeg er mwyn sicrhau Cymru ddwyieithog.

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

Ebrill 2002